# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Ebrill 2011.

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd - Eric Roberts (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Derlwyn R Hughes; Eric Jones; R. Dylan Jones; G.O. Parry MBE; P. Rogers; John Penri Williams; Selwyn Williams; |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)(JHJ);<br>Rheolwr Rhaglen Cynllunio Busnes (GM);<br>Rheolwr Sgriwtini;(BS);<br>Swyddog Sgriwtini (CT);,<br>Swyddog Pwyllgor (JMA). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Fflur Hughes; Mr Keith Roberts; |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Comisiynydd Gareth Jones; |
| **GWYLWYR :** | |

Draft

**1 ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Eric Roberts yn Gadeirydd y Pwyllgor.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am yr anrhydedd o gael ei ethol yn Gadeirydd. Rhoddodd groeso i'r Comisiynydd Gareth Jones i'r cyfarfod. Dywedodd Mr Jones ei fod yn croesawu'r cyfle i gael bod yn dyst o'r gwaith yr oedd y Pwyllgor yn ei wneud ac roedd am gydnabod yr amgylchiadau anodd oedd yn gysylltiedig â'r cyngor ar hyn o bryd.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod na Swyddog yng nghyswllt unrhyw eitem oedd i'w drafod.

**3 COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2011.

**Materion yn Codi**

**Rheoli Risg** - Dywedodd y Swyddog Sgriwtini ei fod wedi trafod y mater hwn gyda chyn-Gadeirydd y Pwyllgor hwn ond y byddai yn awr angen ei drafod gyda'r Cadeirydd newydd.
**Cynrychiolydd o Gyngor Castell-nedd Port Talbot –** dywedodd y Swyddog Sgriwtini y byddai'r mater hwn hefyd angen ei drafod gyda'r Cadeirydd newydd. Fe wnaed sylw y byddai'r cynrychiolydd yn delio gyda ffyrdd o wneud arbedion ariannol yn hytrach na gwella ansawdd ac y gallai fod o ddefnydd i ymweld â Ffatri Toyota sydd yn arloeswyr y system Kaizen.
**Agwedd Gwaelod i Fyny –** roedd yn bwysig bod targedau arbedion yn cael eu nodi ar gyfnod cynnar er mwyn gallu osgoi'r agwedd top i lawr, fel yn 2011.

**GWEITHREDU: y Swyddog Sgriwtini i ymateb i'r materion oedd yn codi ac adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 9 Mai 2011.**

## 4 CYTUNDEBAU CANLYNIAD

Cafodd yr eitem hon ei hystyried ochr yn ochr ag Eitem 5 y Rhaglen.

## 5 CYNLLUN BUSNES CORFFORAETHOL – CYTUNDEBAU CANLYNIADAU

Rhoddodd y Swyddog Sgriwtini gyflwyniad byr ar y sefyllfa bresennol ac ar y prosesau wnaed hyd yn hyn ynglyn â'r uchod. Rhoddodd amlinelliad o gefndir a phwrpas y cytundebau canlyniadau ynghyd â'r elfennau pwysig yn y Cynllun Busnes. Eglurodd y Swyddog y broses ymgynghori yn cynnwys pedwar cwestiwn ymgynghori yr oedd yn ystyried y dylai'r Aelodau eu trafod.

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) adroddiad ar y cyd-destun perthnasol ac ar gefndir y Cynllun a'r Cytundebau. Ychwanegodd bod y Cytundebau Canlyniadau (am gyfnod o dair blynedd) wedi'u cytuno gyda LlCC. Mae'r Cynllun Busnes ar hyn o bryd yn destun ymgynghori fydd yn dod i ben ar 15 Ebrill a'i gyflwyno i gyfarfod Bwrdd y Comisiynwyr ddechrau mis Mai cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ym Mai.

Cafwyd trosolwg gan y Rheolwr Rhaglen Cynllunio Busnes ar rai agweddau allweddol o'r cynllun drafft a'r angen i gymryd i ystyriaeth o sylwadau wnaed gan reoleiddwyr y Cyngor. Nodwyd y byddai angen i'r Cynllun fod yn un yn edrych tuag allan gyda thargedau clir a mesuradwy a gyda phwysigrwydd cyswllt a chyfranogiad y cyhoedd yn cael ei gydnabod. Amlinellodd y 5 prif faes blaenoriaeth i'w gwella a'r gwaith oedd yn gysylltiedig gyda darparu 5 Blaenoriaeth Strategol y Cyngor fyddai hefyd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Busnes.

Rhannwyd yr Aelodau yn ddau Weithgor, yn cael eu hwyluso gan y Swyddog Sgriwtini er mwyn gallu trafod y Cynllun Drafft ac yn arbennig yr agweddau canlynol:-

A ydych yn cytuno gyda nod y Cyngor?
A ydych yn cytuno gyda'r blaenoriaethau strategol?
Pwysigrwydd gwella - blaenoriaethau yn yr hinsawdd presennol;
Cyswllt cydranddeiliaid – gwelliannau a awgrymir.

Rhoddodd y Rheolwr Sgriwtini a'r Swyddog Sgriwtini adborth trwy Gadeirydd y Pwyllgor a chytunwyd y byddai dadansoddiad manwl o'r drafodaeth yn cael ei gyflwyno i Reolwr y Rhaglen Cynllunio Busnes.

## 6 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SGRIWTINI I'R DYFODOL

Cafwyd adolygiad o Raglen Waith y Pwyllgor i'r dyfodol a chytunwyd ar eitemau i'w cynnwys ar Agenda'r cyfarfod fydd i'w gynnal ar 9 Mai.

Cyn cau'r cyfarfod cyfeiriodd y Pwyllgor at *Mr Rees Roberts, Cyfieithydd, oedd wedi colli ei dad yn ddiweddar. Gofynnodd yr Aelodau am i'w cydymdeimlad gael ei gyfleu i Mr Roberts yn ei brofedigaeth.*

**Y CYNGHORYDD ERIC ROBERTS**
**CADEIRYDD**

Draft